## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 18 Rhagfyr 2002 |
| **Amser:** | 9.15am hyd 12.00 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora x, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADOLYGIAD BIOAMRYWIAETH: ADRODDIAD DRAFFT

### Pwrpas

1. Gwahodd y Pwyllgor i dderbyn cynnwys ei adroddiad ar yr adolygiad o gamau bioamrywiaeth lleol.

### Cefndir

2. Ystyriodd y Pwyllgor y materion allweddol yn deillio o'r adolygiad yn ystod y cyfarfod diwethaf ar 4 Rhagfyr, a chytunwyd ar faterion a meysydd ar gyfer argymhellion i'w cynnwys yn yr adroddiad.

### Adroddiad drafft

3. Atodir yn **Atodiad A** ddrafft o'r adroddiad, a fydd yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Cynnwys yr adroddiad yw:

- **Pennod 1**, y **cyflwyniad**, yn nodi'r cylch gorchwyl a phroses yr adolygiad, ac yn crynhoi'r adroddiad;

- **Pennod 2** yn nodi'r **cefndir polisi** i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAPs);

- **Pennod 3** yn crynhoi'r **materion allweddol** sy'n deillio o'r adolygiad, yn nodi barn y Pwyllgor, ac yn gwneud argymhellion;

- **Pennod 4** yn crynhoi'r **argymhellion**;
- Mae'r Atodiadau yn cynnwys ymatebwyr i'r ymgynghoriad (Atodiad 1); ac amlinelliad o gynnydd o ran rhoi'r LBAPs ar waith yng Nghymru (Atodiad 2).

**Amseru**

4. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi trefnu cyflwyno'r adroddiad i'r Cyfarfod Llawn ar 25 Chwefror 2003.

**Argymhelliad**

5. Gwahoddir y Pwyllgor i dderbyn y drafft yn **Atodiad A**.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Rhagfyr 2002